# Gwyrdd neu gelwydd?

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **60 munud a mwy** |
| **Lleoliad** | **Dan do** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar nodi hygrededd honiadau o blaid yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Iechyd a Lles | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Bydd cwblhau'r gweithgaredd hwn yn cynnig cyfleoedd i gyflawni meysydd canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Dinasyddiaeth | Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu | Data a meddwl cyfrifiadurol |
|---|---|---|---|
| • Hunaniaeth, delwedd ac enw da.<br>• Ymddygiad ar-lein a bwlio ar-lein. | • Cyfathrebu<br>• Cydweithredu<br>• Cyfnewid a rhannu gwybodaeth. | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol.<br>• Gwerthuso a gwella cynnwys digidol. | • Llythrennedd gwybodaeth a data. |

## Amcanion

- Bydd dysgwyr yn gallu deall ac egluro ystyr y term 'gwyrddgalchu'.
- Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio rhai o'r tactegau y mae cwmnïau'n eu defnyddio i wyrddgalchu cynhyrchion a gwasanaethau.
- Bydd dysgwyr yn gallu cydweithio i ymchwilio a llunio barn ar gynaliadwyedd amgylcheddol cynnyrch, gan fireinio eu sgiliau ymchwil er mwyn gwneud hynny.

## Adnoddau ac offer

- Dyfeisiau clyfar
- Deunyddiau ymchwil ar-lein a gasglwyd drwy ddefnyddio peiriannau chwilio a gwefannau

## Gwybodaeth gefndir

Nid yw bob amser yn hawdd adnabod cynhyrchion cynaliadwy (gwrthrychau materol, diriaethol fel bar o sebon) a gwasanaethau cynaliadwy (gwasanaeth y mae rhywun yn ei ddarparu e.e. rhoi cyngor, dosbarthu bwyd, dylunio gwefan).

Mae gwyrddgalchu, neu gosod sglein gwyrdd, yn dermau sy'n cyfeirio at gwmnïau sy'n hysbysebu ac yn marchnata eu nwyddau neu eu gwasanaethau fel rhai ecogyfeillgar, pan nad ydyn nhw felly. Er enghraifft, gall cwmnïau sy'n ymwneud â gwyrddgalchu gamarwain defnyddwyr trwy wneud honiadau ffug neu amwys bod eu cynhyrchion wedi'u gwneud o ddeunyddiau o ffynonellau cynaliadwy, deunyddiau wedi'u hailgylchu neu fod ganddyn nhw fanteision arbed ynni.

Gall technegau gwyrddgalchu fod yn rhai eithaf cynnil, fel pecynnu twyllodrus er mwyn argyhoeddi cwsmeriaid bod cwmni yn eco-bencampwr.

Gall gwyrddgalchu fod yn ddrwg i'r amgylchedd oherwydd gall gamarwain cwsmeriaid fel eu bod yn ymddwyn yn anghynaliadwy. Os bydd cwmni'n dweud bod ei gynhyrchion a'i wasanaethau yn ecogyfeillgar ac yn gynaliadwy, mae'n bosib y bydd cwsmeriaid yn fwy tebygol o'u prynu.

Gall ffug honiadau o blaid yr amgylchedd arwain at gwsmeriaid yn prynu cynhyrchion gwenwynig, peryglus sy'n amgylcheddol niweidiol, a hynny heb iddyn nhw sylweddoli, gan gyfrannu'n ddamweiniol wedyn at niweidio'r amgylchedd trwy gefnogi'r cwmni.

Mae rhai cwmnïau hefyd wedi eu cyhuddo o arddangos rhinweddau wrth farchnata, ymgyrchu, mewn cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu brand. Yn yr achos hwn, arddangos rhinwedd yw'r weithred o siarad neu ymddwyn mewn ffordd sydd i fod i ymddangos o blaid yr amgylchedd, tra nad oes yna mewn gwirionedd unrhyw ymddygiad cysylltiedig go iawn sydd o blaid yr amgylchedd.

Mae llawer o gwmnïau a brandiau yn addo tynnu cynhyrchion anghynaliadwy o'u cynnig ac yn argymell bod eraill yn gwneud yr un peth, a hyd yn oed yn enwi ac yn codi cywilydd ar eraill yn gyhoeddus am fethu gwneud hynny. Pan ddaw i'r amlwg bod cwmni yn un sy'n defnyddio technegau gwyrddgalchu er mwyn gwerthu ei nwyddau a'i wasanaethau, gall cwmnïau cystadleuol ddefnyddio hyn i greu rhagfarn ac i ddylanwadu ar eu cwsmeriaid er mwyn ennill eu bri o blaid eu cynhyrchion eu hunain.

Gofynnwch a yw eich dysgwyr wedi clywed am y term 'gwyrddgalchu'. Gofynnwch i'r grŵp drafod yr ystyr posibl ymysg ei gilydd a rhoi adborth am eu barn. A yw eich dysgwyr yn gallu meddwl pam y gallai gwyrddgalchu fod yn andwyol i'r amgylchedd? Ydyn nhw'n gallu meddwl am unrhyw ffactorau cadarnhaol allai berthyn i wyrddgalchu?

## Yr hyn sydd angen ei wneud

### Gweithgaredd 1 - Wedi'i wyrddgalchu ymaith

1. Eglurwch wrth eich dysgwyr eu bod nhw'n mynd i chwilio am enghreifftiau o gwmnïau y canfuwyd bod eu cynhyrchion a'u gwasanaethau wedi'u gwyrddgalchu. Gofynnwch i'ch grŵp ystyried sut y gallen nhw ddod i wybod am hyn? Ble bydd gwybodaeth am y mathau hyn o weithgareddau yn cael ei lleoli? Pa fath o gwestiynau y gallen nhw eu gofyn i beiriant chwilio i'w harwain at y safleoedd cywir lle gellir dod o hyd i wybodaeth am y pwnc hwn? Er enghraifft, gallen nhw chwilio am hysbysebion sydd wedi'u gwahardd gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu am wallau gwyrddgalchu.
2. Rhowch ddigon o amser i'ch dysgwyr chwilio am gliwiau ac i nodi unrhyw ddarganfyddiadau perthnasol. Mae yna lawer o enghreifftiau ar-lein o gwmnïau y canfuwyd eu bod yn gwyrddgalchu.



3. Unwaith y bydd y chwiliadau wedi'u cwblhau, gofynnwch i'ch dysgwyr roi adborth ar eu canfyddiadau. A ddaethon nhw o hyd i unrhyw beth a'u synnodd? Sut mae hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo ynglŷn â'r cwmnïau y canfuwyd eu bod yn gwyrddgalchu eu cynhyrchion a'u gwasanaethau? Pa effaith y mae gwyrddgalchu yn ei chael ar ddefnyddwyr? Pe bai eich dysgwyr yn meddwl nad oedd cwmni yn cyflawni eu honiadau cynaliadwy, sut fydden nhw'n ymateb? Pa gamau y gallai eich dysgwyr eu cymryd i dynnu sylw eraill at wyrddgalchu neu i ganmol cwmni am eu hymddygiad ecogyfeillgar, e.e. creu holiadur defnyddwyr, ysgrifennu datganiad i'r wasg neu erthygl?

## Gweithgaredd 2 – Honiadau beiddgar

1. Cyflwynwch y pwnc drwy ofyn i'ch dysgwyr ystyried y gair 'gwyrdd'. Pa arwyddocâd sydd i'r gair hwn mewn perthynas â chynhyrchion a gwasanaethau? Sut mae cael gwybod bod cynnyrch neu wasanaeth yn 'wyrdd' yn gwneud iddyn nhw deimlo? A oes yna ymateb cadarnhaol awtomatig? All eich grŵp feddwl am unrhyw eitemau sydd ganddyn nhw yn eu cartref a brynwyd oherwydd eu bod yn credu eu bod yn gynhyrchion cynaliadwy, moesegol, e.e. rhywbeth wedi'i wneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, neu heb ei brofi ar anifeiliaid?
2. Rhannwch eich dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach ac eglurwch eu bod nhw'n mynd i weithio gyda'i gilydd i 'wyrddgalchu' eitem o'u dewis, a hynny mewn ffordd sy'n argyhoeddi.
3. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddewis rhywbeth i'w wyrddgalchu. Gallai'r eitem hon fod yn gynnyrch neu'n wasanaeth, e.e. cynnyrch cartref cyffredin, rhywbeth y gallan nhw ddod o hyd iddo yn y cyffiniau, neu rywbeth mwy fel mordaith gwyliau i Alasga neu wasanaeth rhyngrwyd.
4. Eglurwch fod angen iddyn nhw nawr greu nifer o honiadau beiddgar neu gelwyddau gwych ynglŷn â pha mor gynaliadwy, moesegol a/neu ecogyfeillgar yw eu cynnyrch neu wasanaeth. Rhowch ddigon o amser i bob pâr neu grŵp drafod pa honiadau cwbl amlwg o ffug y gallen nhw eu creu a sut i'w geirio mewn ffordd mor argyhoeddiadol â phosibl.
5. Gofynnwch i bob pâr neu grŵp gyflwyno eu honiadau beiddgar am y cynnyrch neu'r gwasanaeth a ddewiswyd. Gallai hyn gael ei gwblhau fel hysbyseb ysgrifenedig neu fod wedi'i ffilmio neu'n syml fel cyflwyniad dangos a dweud.
6. Ar ôl pob cyflwyniad, anogwch weddill y grŵp i ofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr er mwyn profi eu honiadau. Bydd yn rhaid i'r cyflwynwyr feddwl yn gyflym er mwyn ateb yn greadigol ac aros 'ar y brand'.
7. Unwaith y bydd pob pâr neu grŵp wedi cwblhau eu cyflwyniadau, trefnwch bleidlais grŵp dros yr honiadau beiddgar mwyaf creadigol a/neu gredadwy.
8. Fel grŵp cyfan, trafodwch pa mor hawdd neu anodd oedd hi i wyrddgalchu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau, a sut y gellid defnyddio hyn fel model busnes yn y byd go iawn i hybu gwerthiant.



## Gweithgaredd 3 – Adnabod Gwyrddgalchu

1. Paratowch dasg gwaith cartref ‘adnabod gwyrddgalchu’ ar gyfer eich dysgwyr, gan ofyn iddyn nhw gymryd sylw gofalus o hysbysebion neu hyrwyddiadau ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau mewn cylchgronau a phapurau newydd neu ar y teledu, y cyfryngau cymdeithasol neu ar-lein yn ystod yr wythnos.
2. Gofynnwch i’ch dysgwyr nodi unrhyw dechnegau gwyrddgalchu posibl a ddefnyddir yn yr hysbysebion a’r hyrwyddiadau hyn. Oes modd iddyn nhw berswadio aelodau eu teulu i ymuno yn y gweithgaredd canfod?
3. Ar ddiwedd yr wythnos, gofynnwch i’ch dysgwyr roi adborth a chyfrif y darganfyddiadau y maen nhw’n amau eu bod wedi eu gwyrddgalchu. Cymharwch y canfyddiadau ag eraill er mwyn cadarnhau a sylwodd unigolion neu nifer o bobl ar sawl strategaeth wyrddgalchu - beth allai hyn ei ddweud am ba mor amlwg neu gynnil yw’r strategaethau hyn?
4. Gellid gofyn am unrhyw ganfyddiadau yn y gweithgaredd nesaf neu gellid gwirio ffeithiau yn unig.



## Gweithgaredd 4 – Gwirio gwyrdd

1. A all eich dysgwyr egluro beth yn eu barn nhw yw ystyr cynnyrch neu wasanaeth ecogyfeillgar neu gynaliadwy? Oes modd iddyn nhw feddwl am ddiffiniad? Gellir diffinio hyn fel cael y deunyddiau, y cynhyrchion, a’r gwasanaethau sydd eu hangen ar sefydliad oddi wrth ei gyflenwyr, a hynny mewn modd sy’n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol, ac sydd, ar yr un pryd, yn gadarn yn economaidd. Er enghraifft, cynnyrch sydd wedi’i wneud mewn ffordd nad yw’n disbyddu adnoddau naturiol, anadnewyddadwy, nac yn niweidio’r amgylchedd ac nad yw wedi’i wneud mewn ffordd gymdeithasol anghyfrifol.



2. Gyda'ch dysgwyr mewn parau, gofynnwch iddyn nhw ymchwilio i lefel ecogyfeillgarwch a chynaliadwyedd cynnyrch penodol. Gallai'r grŵp cyfan ymchwilio'r un thema neu gallech osod testun gwahanol ar gyfer pob pâr. Er enghraifft:
    - Eitemau fel dillad ac esgidiau wedi'u gwneud o boteli plastig wedi'u hailgylchu
    - Cerbydau trydan
    - Olew palmwydd
    - Llaeth almon
    - Ffabrigau cynaliadwy ffasiwn ar frys
    - Lledr fegan
    - Sebon gwrthfacterol
    - Past dannedd siarcol
    - Creision tatws
    - Dŵr potel
    - Cynhyrchion plastig wedi'u hailgylchu
    - Bariau granola
    - Tanwydd ethanol
    - Ffonau symudol
    - Wyau buarth
    - Bagiau bioddiraddadwy
    - Bioblastigion
    - Cola
    - Cynhyrchion amnewidion cig llysieuol
    - Cynhyrchion glanhau diwenwyn
    - Sosbenni nad ydynt yn glynu
    - Siocled
    - Podiau coffi
    - Cig

3. Gofynnwch i'ch dysgwyr sut y gallen nhw ddarganfod mwy am p'un ai yw'r eitemau hyn yn wirioneddol ecogyfeillgar neu os ydyn nhw o bosib wedi eu gwyrddgalchu. Trafodwch sut y gall fod yn anodd iawn darganfod a yw cynnyrch neu wasanaeth yn wirioneddol gynaliadwy ac ecogyfeillgar, ond gallan nhw:
    - Edrych ar ddulliau marchnata, pecynnu a labelu cynnyrch. Gallwch gael eich twyllo i feddwl bod y cynnyrch yn ecogyfeillgar trwy ddefnyddio signalau gweledol syml fel y defnydd o liwiau naturiol, pridd-liw mewn pecynnu, defnyddio iaith amgylcheddol yn enw'r cynnyrch neu ddefnyddio lluniau o fyd natur wrth farchnata.
    - Archwilio'r honiadau penodol y mae cwmni'n eu gwneud am eu cynnyrch. Gallai hyn fod trwy eu gwefan, hysbysebion, neu ar becynnu'r cynnyrch. Pa mor fanwl a phenodol ydyn nhw? A ydyn nhw ond yn defnyddio datganiadau bras sy'n golygu dim byd mewn gwirionedd e.e. mae'r cynnyrch yn 'wyrdd', 'organig' neu 'naturiol'? Neu a ydyn nhw'n defnyddio manylion penodol iawn, e.e. mae'r cynnyrch wedi'i wneud o ddeunydd sydd wedi'i ailgylchu 100%? Os ydych chi'n cael trafferth dod o hyd i wybodaeth amgylcheddol am gynnyrch, brand neu wasanaeth, ystyriwch hynny fel arwydd o rybudd.
    - Ymchwilio i weld a yw sefydliadau trydydd parti sydd ag enw da yn cymeradwyo ecogyfeillgarwch y cwmni trwy wirio gwefan y cynnyrch neu label y cynnyrch ei hun am ardystiadau gwyrdd, e.e. Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (Forest Stewardship Council) ar gyfer cynhyrchion pren o ffynonellau cynaliadwy. Eco-labelu, wedi'i safoni gan ISO 14024 (Sefydliad Safoni Rhyngwladol - sefydliad annibynnol, anllywodraethol, rhyngwladol sydd ag aelodaeth o 166 o gyrff safonau cenedlaethol), sy'n cael ei gydnabod ledled y byd ac yn parhau i fod yn un o'r offer mwyaf defnyddiol i osgoi gwyrddgalchu.
    - Gwirio gwybodaeth hysbysebu'r cwmni. Fel arfer, mae'r pethau y mae adolygiadau cwsmeriaid a sefydliadau allanol yn eu dweud am gwmni yn fwy dibynadwy, ond ymchwiliwch i'r hyn y mae'r cwmni'n ei ddweud amdano'i hun. Gwiriwch wefan y cwmni, yn enwedig y tudalennau 'Amdanom Ni'.



- Archwilio honiadau gwrthbwyso carbon. Gall busnes geisio cydbwyso ei allyriadau ei hunan drwy ddod o hyd i ffyrdd eraill o dynnu swm cyfatebol o nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer heb ymdrin â'r mater o dorri unrhyw allyriadau mewn gwirionedd. Gwrthbwyso carbon yw un o'r mathau mwyaf poblogaidd o wyrddgalchu.
- Gofynnwch i'ch dysgwyr gwblhau chwiliad ar-lein a gweld beth mae eraill yn ei ddweud, gan gynnwys y cyfryngau, am yr hyn y mae'r cwmni'n ei wneud i helpu'r amgylchedd. A yw'r ffynonellau gwybodaeth yn rhai ag iddyn nhw enw da, yn ddibynadwy ac a oes ganddyn nhw hanes o fod yn gywir?
- A yw'r cwmni'n dryloyw ynglŷn â sut mae'n trin ei weithwyr, yn dod o hyd i'w ddeunyddiau, ac yn rheoli ei wastraff?
- Cyfaddawdau cudd - materion amgylcheddol sy'n cael eu pwysleisio ar draul mater arall allai fod yn fwy problemus. Er enghraifft, cynhyrchion papur yn tynnu sylw at eu cynnwys wedi'i ailgylchu neu arferion cynaeafu coed cynaliadwy heb roi sylw i brosesau gweithgynhyrchu allai fod yn drwm ar allyriadau.



- Diffyg prawf o unrhyw dystiolaeth ffeithiol ynghylch unrhyw honiadau amgylcheddol. Er enghraifft, nwyddau ymolchi sy'n honni nad ydyn nhw wedi eu profi ar anifeiliaid, ond sydd heb fod yn cynnig unrhyw dystiolaeth nac ardystiad.
- Honiadau amgylcheddol annelwig, diystyr, sy'n brin o fanylion. Er enghraifft, nid yw 'naturiol' o reidrwydd yn golygu ecogyfeillgar neu gynaliadwy - mae mercwri a wraniwm i'w cael yn naturiol; neu 'heb gemegau' pan fo dŵr, mewn gwirionedd, yn sylwedd cemegol.
- Creu tystysgrif neu labeli ffug i gamarwain defnyddwyr er mwyn iddyn nhw gredu bod y cynnyrch wedi mynd trwy broses sgrinio werdd ddilys.
- Pwysleisir materion amgylcheddol digyswllt. Er enghraifft, dweud bod rhywbeth yn ddi-blastig pan mae hi, mewn gwirionedd, yn anghyfreithlon i fod ag olion plastig neu gemegau niweidiol eraill yn y cynnyrch hwnnw.
- Honiadau amgylcheddol ar gynhyrchion nad oes iddyn nhw unrhyw fanteision amgylcheddol yn y lle cyntaf. Er enghraifft, sigaréts organig a phryfleiddiaid gwyrdd.
- Honiadau amgylcheddol sy'n amlwg yn ffug. Er enghraifft, dweud bod cynnyrch wedi'i becynnu mewn papur sydd wedi'i ailgylchu 100%, pan fo'r cynhwysydd ei hun wedi'i wneud o blastig mewn gwirionedd.
- Iaith gorgymhleth a defnyddio rhestrau hir o gynhwysion cynnyrch e.e. mae olew palmwydd yn aml yn cael ei guddio trwy ddefnyddio enwau cemegol amrywiol sydd, yn eu tro, yn cuddio'r ffaith nad yw'n gynaliadwy.
- Edrych i weld pwy, yn y pen draw, yw perchennog y cwmni, gan fod cwmnïau mwy neu gyd-dyriadau yn aml yn prynu cwmnïau llai i'w defnyddio i dargedu cwsmeriaid sy'n ymwybodol o'r amgylchedd, tra gallai eu heffaith amgylcheddol gyfan fod yn uchel.
- Meddwl am y darlun ehangach. Er enghraifft, a ellir cymryd o ddifrif honiadau amgylcheddol sy'n cael eu gwneud ar eitem blastig untro?

**4.** Gofynnwch i'ch dysgwyr chwilio am unrhyw wyrddgalchu posibl mewn perthynas â'r cynnyrch, yna, gan ystyried y pwyntiau a drafodwyd yn pwynt 3, rhowch brawf dilysrwydd ar unrhyw honiadau amgylcheddol/cynaliadwy. Atgoffwch y grŵp i sicrhau eu bod yn ymchwilio i bob ochr/safbwynt gwrthgyferbyniol.



5. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer ymchwil cynnyrch.
6. Gofynnwch i'ch dysgwyr roi adborth ar eu canfyddiadau. Pa mor hawdd neu anodd oedd hi iddyn nhw gael gafael ar yr wybodaeth roedden nhw'n chwilio amdani? A yw'r ymchwil wedi rhoi digon o wybodaeth iddyn nhw allu llunio barn wybodus am ba mor eco-gyfeillgar neu gynaliadwy yw'r cynnyrch? Oes unrhyw rai o'r cynhyrchion wedi'u nodi fel rhai sydd heb fod yn gynaliadwy neu'n niweidiol i'r amgylchedd? A ddangoswyd yn glir bod unrhyw rai o'r cynhyrchion yr ymchwiliwyd iddyn nhw yn rhai eco-gyfeillgar a chynaliadwy?
7. Gyda'u gwybodaeth am wyrddgalchu, sut mae'ch dysgwyr yn teimlo am geisio gwneud eu dewisiadau moesegol eu hunain neu roi cynnig ar ddylanwadu ar arferion siopa eu teulu? Trafodwch - nid yw bod yn gymdeithasol gyfrifol yn ymwneud â rhoi pob un pryniant trwy brawf celwyddau gwyrdd, ond mae'n fater o wneud dewisiadau rhesymol, a hynny o ddydd i ddydd. Ni all pob teulu fforddio prynu nwyddau organig, ond gallwn ni i gyd wneud pethau eraill i helpu.
8. A all eich dysgwyr feddwl am unrhyw newidiadau y gallen nhw neu eu teulu eu gwneud er mwyn ymaddasu ar gyfer hyn? Er enghraifft, allen nhw:
    - Brynu llai drwy osgoi tueddiadau newydd.
    - Prynu nwyddau ail law yn hytrach na rhai newydd.
    - Prynu dillad wedi'u gwneud o ffibrau naturiol.
    - Prynu nwyddau a gynhyrchwyd yn lleol er mwyn lleihau cludiant a milltiroedd bwyd.
    - Prynu bwydydd tymhorol.
    - Chwilio am ddeunydd pacio y gellir ei ailgylchu.
    - Prynu eitemau o ffynonellau lleol ac sydd wedi'u gwneud yn lleol.
    - Prynu gan fusnesau cynaliadwy sy'n gwneud ymdrech i sicrhau effaith amgylcheddol isel.
9. Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dysgwyr lunio rhestr o unrhyw gynhyrchion yn eu bywydau bob dydd y maen nhw'n tybio eu bod wedi'u gwneud mewn ffordd ecogyfeillgar a chynaliadwy. Gallai'r rhain gynnwys cynhyrchion bwyd, eitemau dillad, eitemau'r cartref, nwyddau anifeiliaid anwes, eitemau gardd, offer ysgol, deunydd ysgrifennu, pethau ymolchi, ac ati.



## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Beth yw gwyrddgalchu a pham mae'n ddrwg i'r amgylchedd?
- Pam mae rhai cwmnïau'n defnyddio technegau gwyrddgalchu?
- Sut gellir adnabod tactegau gwyrddgalchu?
- Sut gallwn ni siopa'n fwy cynaliadwy?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Cwblhau gweithgaredd 2 yn unig
- Darparu data ymchwil wedi'i goladu ar gynhyrchion a ddewiswyd ymlaen llaw
- Cwblhau fel grwpiau dan arweiniad oedolion

### Mwy o sialens

- Cwblhau'r elfennau ymchwil yn annibynnol
- Caniatáu i'r dysgwyr nodi a dewis cynnyrch addas i ymchwilio iddo
- Ymchwilio i wyrddgalchu mewn perthynas â sawl cynnyrch a gwasanaeth
- Rhoi rhywbeth i'ch dysgwyr ei drafod, e.e. a yw gwyrddgalchu yn ddull marchnata bwriadol a thwyllodrus o dwyllo pobl i wario a'u hatal rhag gwneud penderfyniadau moesegol gwybodus?

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

Beth am roi cynnig ar:

- **Cynllun gweithgaredd – Argyfwng hinsawdd**
- **Cynllun gweithgaredd – Sut y gallwn ni fyw'n gynaliadwy?**
- Creu ymgyrch codi ymwybyddiaeth ynghylch gwyrddgalchu

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government